

# Cronfa Ffyniant i Gymru:

---

Ymateb Plaid Cymru i'r  
Ymgynghoriad "UK Shared  
Prosperity Fund"



Plaid Cymru | Party of  
Wales

## Rhagair

Addawodd ymgyrch y Bleidlais Arael na fyddai Cymru yn colli'r un geiniog petaem yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mewn gwirionedd fe ddywedasant y byddai difidend yn dod yn sgil Brexit. Mae Plaid Cymru yn benderfynol o wneud yn siŵr eu bod yn cadw at yr addewidion hyn.

Mae Cymru ar hyn o bryd yn derbyn £245 miliwn y flwyddyn yn fwy gan yr Undeb Ewropeaidd nac y mae'n dalu i mewn. Rhwng 2014 a 2020, bydd Cymru wedi derbyn dros £2 biliwn gan yr Undeb Ewropeaidd trwy Gronfeydd Strwythurol Ewrop. Bwriad y cronfeydd hyn yw lleihau anghydraddoldeb rhwng rhanbarthau trwy helpu i gefnogi pobl i mewn i waith a hyfforddiant, cyflogaeth ieuenctid, ymchwil ac arloesedd, cysylltedd a datblygu trefol.

Yn y tymor byr, addawodd Llywodraeth Prydain warantu cyllid yn fframwaith cyllideb 2014-20 hyd nes y bydd yn cau, hyd yn oed petai'r DG yn mynd allan o'r UE heb gytundeb.


Yn y tymor hwy, dywedodd maniffesto'r Ceidwadwyr yn 2017 y "Byddwn yn defnyddio arian y cronfeydd strwythurol a ddaw'n ôl i'r DG wedi Brexit i greu Cronfa Rhannu Ffyniant y Deyrnas Gyfunol, wedi'i chynllunio'n benodol i leihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ar draws ein pedair cenedl."

Addawyd ymgyngoriad i ni ar ddyfodol Cronfa Rhannu Ffyniant y DG cyn diwedd 2018. Serch hynny, nid yw Llywodraeth Prydain eto wedi cyhoeddi unrhyw fanylion am Gronfa Rhannu Ffyniant y DG, y corff newydd sy'n gyfrifol am neilltuo cyllid wedi Brexit ledled y DG. Yn ychwanegol at hyn, mae'r corff wedi ei leoli yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, sef adran i faterion Lloegr yn unig. Mae'r diffyg gwybodaeth llwyr a dim blaengynllunio ar y ffrwd gyllido hanfodol hon yn codi dychryn.

Yn niffyg unrhyw gynigion gan Lywodraeth Prydain ar gynllun a gweithredu Cronfa Rhannu Ffyniant y DG, comisynodd Plaid Cymru adroddiad i ymchwilio i'n dewis o fodel cyllido. Bwriad yr adroddiad hwn yw gweithredu fel ein hateb swyddogol ar yr Ymgyngoriad ar Gronfa Rhannu Ffyniant y DG. Tra bod ffurf y gronfa hon yn hanfodol er mwyn i ni gadw'r Bleidlais Arael i gyfrif am eu haddewidion a dechrau lleihau anghydraddoldeb rhwng rhanbarthau ar draws y DG, dylai fod yn un rhan fechan o'r model cyllido a ragwelwn ar gyfer Cymru Newydd y dyfodol.



**Ben Lake AS**



**Rhun ap Iorwerth AC**

## Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion

- Mae Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn fuddsoddiad pwysig mewn sgiliau a seilwaith yng Nghymru. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon ynddynt eu hunain i drawsnewid economi Cymru, fel y dangoswyd dros yr ugain mlynedd a aeth heibio. Mae cael Cronfa Rhannu Ffyniant y DG yn lle'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn gyfle am fuddsoddi mwy sylweddol o lawer a allai fod yn wir drawsnewidiol a lleihau anghydraddoldeb rhwng cymunedau. Byddai hyn yn gofyn am swm uwch o lawer o gyllid gan Lywodraeth y DG na'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd gan yr Undeb Ewropeaidd a chyllid cyfatebol.
- Pa benderfyniadau bynnag a wneir am Gronfa Rhannu Ffyniant y DG, ni ddylai Cymru dderbyn ceiniog yn llai dan y trefniadau newydd na phetai trefniadau 2014-2020 yr Undeb Ewropeaidd o ran y cronfeydd strwythurol wedi parhau, gyda chodiad i gydnabod chwyddiant a chynnydd mewn poblogaeth, fel bod y swm yn aros yr un fath y pen mewn termau real. Bydd y swm hwn oddeutu £2.5bn ar draws y cyfnod o saith mlynedd o 2021 i 2027.
- Mae angen gwneud penderfyniadau ynghylch y trefniadau cyllido yn y dyfodol yn gyflym, fel na fydd bwlch mewn cyllido ac i helpu i sicrhau trosiant llyfn a tharfu cyn lleied ag sydd modd ar gyflwyno prosiectau ar lawr gwlad.
- Dylai elfen Cymru Cronfa Rhannu Ffyniant y DG gael ei rheoli yng Nghymru, nid ar lefel y DG, gan barchu'r setliad datganoli dan ganllawiau sy'n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i gwrdd ag anghenion Cymru.
- Dylai'r arian a fydd ar gael i elfen Cymru Cronfa Rhannu Ffyniant y DG gael ei neilltuo ymlaen llaw, yn hytrach na defnyddio proses fidio gystadleuol.

- Dylai unrhyw gynnydd yn swm y cyllid sydd ar gael i Gronfa Rhannu Ffyniant y DG uwchlaw ei lefel gyfredol (yn awr neu yn y dyfodol) adlewyrchu'r sefyllfa gyllido bresennol lle mae Cymru'n derbyn 22% o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd.
- Dylai Cronfa Rhannu Ffyniant y DG fod yn rhaglen gyllido aml-flynyddol er mwyn caniatáu cynllunio tymor-hir a sicrwydd cyllid, ac er mwyn osgoi ystyriaethau cylch etholiadol neu werthuso tymor-byr.
- Dylid parhau i gyfrifo Cronfa Rhannu Ffyniant y DG ar wahân i wariant craidd Llywodraeth Cymru er mwyn dangos gwerth ychwanegol y CRhFf i Gymru
- Dylid adolygu trefniadau presennol yr Awdurdod Rheoli rheoliadau Ewropeaidd yng Nghymru, yn SGEC, er mwyn gofalu eu bod yn cyflwyno'r arian newydd mor effeithiol ag sydd modd, a hynny er mwyn cael y mwyaf o effaith.
- Dylai cyllido rhaglenni yng Nghymru barhau i anelu am nod cronfeydd strwythurol Ewropeaidd gan gynnwys ffrydiau ynghylch cyflogadwyedd a datblygu economaidd, tra'n sicrhau synergedd ar yr un pryd a pholisi a gwariant Llywodraeth Cymru, a chwrdd â deddfwriaeth am gynaliadwyedd megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae tipyn o orgyffwrdd rhwng amcanion Cronfa Rhannu Ffyniant y DG a Chronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop, yn benodol.

# 1. Cyflwyniad

Ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd y Deyrnas Gyfunol i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Fel aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd, yr oedd y Deyrnas Gyfunol yn cyfrannu tuag at Fframwaith Ariannol Aml-flynyddol yr Undeb Ewropeaidd (FfAAF), y broses gyllidebu gyda'r amserlen berthnasol gyfredol o 2014-2020.

Yr oedd neilltuo arian dan y FfAAF yn golygu dosbarthu cronfeydd yn ôl i aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd dan amrywiaeth o raglenni.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiadau gan Jill Evans ASE, ac o Ganolfan Llywodraethiant Cymru, ymysg eraill, cytunir yn gyffredinol bellach fod Cymru, fesur pen o boblogaeth, yn derbyn mwy o arian gan yr Undeb Ewropeaidd nac y mae'n gyfrannu .

Mae'r papur hwn yn ymchwilio cynnig am rywbeth i gymryd lle cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru - Y Cronfeydd Cymdeithasol Ewropeaidd a Chronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop - o fewn fframwaith y Deyrnas Gyfunol, ar y rhagdybiaeth y bydd y DG yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ac na fydd Cymru bellach yn gymwys am gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd.

## 2. Hanes Cronfeydd Strwythurol Ewrop (CSE) a'r Cronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (CDRhE)

Mae gan yr Undeb Ewropeaidd amrywiaeth o gronfeydd y gellir eu cyrchu, gan gynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin, Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, Interreg, Erasmus+ a Horizon 2020 ymysg eraill. Mae rhai o'r cronfeydd hyn yn cael eu cyn-neilltuo yn ôl aelod-wladwriaethau neu ranbarthau sy'n cwrdd â meini prawf penodol, tra bod eraill yn cael eu neilltuo ar sail proses fidio gystadleuol.

Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar ddwy gronfa a gyn-neilltuir ac y cyfeirir atynt fel Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, sy'n cynnwys Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd.

Gyda'i gilydd, y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yw'r ail fwyaf o raglenni'r Undeb Ewropeaidd, wedi'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Sefydlwyd Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop (CDdRhE) ym 1975. Mae gwefan CDdRhE yn esbonio mai ei nod yw "cryfhau cydlyn economaidd a chymdeithasol yn yr Undeb Ewropeaidd trwy unioni anghydbwysedd rhwng ei rhanbarthau." Mae nod penodol i CDdRhE. Caiff buddsoddiadau eu canoli ar ardaloedd thematig penodol a'u neilltuo yn ôl y GDP rhanbarthol o gymharu â chyfartaledd 28 yr UE. Yn FfAAF 2014-2020, neilltuwyd cyllid yn ôl dynodiad rhanbarth fel 'llai datblygedig', gyda GDP o 75% o gyfartaledd yr UE, rhanbarthau 'trosiannol' gyda GDP rhwng 75% a 90% o gyfartaledd yr UE, a rhanbarthau 'mwy datblygedig', gyda GDP o fwy na 90% o gyfartaledd yr UE.

Mae holl ranbarthau'r UE yn gallu cyrchu'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (CGE). Yn ol eu gwefan, "Mae CGE yn buddsoddi mewn pobl, gan ganoli ar wella cyfleoedd gwaith ac addysg ledled yr Undeb Ewropeaidd. Mae ganddi nod hefyd o wella sefyllfa'r bobl fwyaf bregus sydd mewn perygl o dlodi". Mae CGE yn buddsoddi mewn cyfalaf dynol, trwy gynyddu cyflogadwyedd, hyrwyddo addysg a sgiliau yn ogystal â chynhwysiant cymdeithasol a gwrthweithio tlodi, ymysg amcanion eraill.

Mae Fframwaith Ariannol Aml-Flynyddol (FfAAF) cyfredol yr UE yn para o 2014 tan 2020. Cadarnhaodd Llywodraeth y DG yr anrhydeddir yr addewidion cyllido a neilltuwyd dan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd tan ddiwedd y cyfnod hwn.

Pennwyd dyraniadau terfynol y 10.8 bn Euro i genhedloedd a rhanbarthau'r DG dan FfAAF 2014-2020 ym mis Ebrill 2014 gan Vince Cable AS, a oedd bryd hynny yn Ysgrifennydd gwladol y DG dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau.

O'r arian hwn, neilltuwyd 6,937.2m Euro i Loegr, neilltuwyd 894.6m i'r Alban, 2,412.5m Euro i Gymru, 513.4m Euro i Ogledd Iwerddon a 10.4m Euro i Gibraltar. Derbyniodd Cymru 22.3% o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd y DG yn ystod y cyfnod hwn.

Yng Nghymru, neilltuwyd 2,005.9m Euro (83%) i ardal Nuts2 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, oedd a GDP islaw 75% o gyfartaledd 28 yr UE, a ddynodwyd yn ardal llai datblygedig ac a oedd felly yn gymwys am y cyfraddau uchaf o gefnogaeth yr UE, a 406.6m (17%) Euro i ardal Nuts2 Dwyrain Cymru, yr oedd ei GDP uwchlaw 90% o gyfartaledd 28 yr UE adeg gweithio hyn allan, ac a ddynodwyd felly yn ardal fwy datblygedig.

Mae ardal Nuts2 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cynnwys pymtheg o ddwy ar hugain ardal awdurdod lleol Cymru (Pen-y-bont, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Castell Nedd Port Talbot, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen), tra bod ardal Nuts2 Dwyrain Cymru yn cynnwys y saith arall (Caerdydd, Sir y Fflint, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam)

Amcangyfrifwyd bod gwerth y cyllid hwn tua £2.01bn, ar sail cyfradd gyfnewid geidwadol o £1: 1.20 Euro a ddefnyddiwyd i bennu gwariant ar y rhaglen. Fodd bynnag, yn dilyn cwmp yng ngwerth y bunt yn erbyn yr Euro, ailddatganwyd hyn yn £1: 1.17 Euro, sydd yn golygu buddsoddiad o fymryn dan £2.07bn.

Darperir cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar y disgwyliad y daw cyllid cyfatebol. Rhagwelir y bydd yr elfen Ewropeaidd yn 60% o'r gwariant sydd ar gael, gyda chyllid cyfatebol yn darparu 40%.

Llywodraeth Cymru, sydd yn gyfrifol am ddatblygu rhanbarthol yng Nghymru, oedd y corff cyfrifol yng Nghymru am ddsbarthu'r cronfeydd hyn. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei reoli gan Swyddfa Gyllido Ewropeaidd Cymru (SGEC). Trafodir rôl SGEC yn fanylach yn nes ymlaen yn y papur hwn.

### 3. Beth yw Cronfa Rhannu Ffyniant y DG(CRhFf)

Yn ystod ymgyrch y refferendwm, ac wedyn, codwyd cwestiynau am ddyfodol yr arian sy'n cael ei dderbyn ar hyn o bryd o'r Undeb Ewropeaidd.

Addawodd manifesto'r Blaid Geidwadol yn Etholiad Cyffredinol y DG yn 2017 y buasent yn creu "Cronfa Rhannu Ffyniant y Deyrnas Gyfunol, wedi ei gymryd o'r arian sy'n dod yn ôl i'r DG wrth i ni adael yr UE, i leihau'r anghydraddoldeb rhwng cymunedau ar draws ein pedair cenedl."

Beirniadwyd agweddau o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn y manifesto, gan ddweud yn benodol eu bod yn ddud i'w gweinyddu ac wedi eu targedu'n wael, er na roddwyd tystiolaeth arwyddocaol i gefnogi'r honiadau hyn.

Â'r manifesto ymlaen i ddweud: "Byddwn yn defnyddio arian y cronfeydd strwythurol a ddaw'n ôl i'r DG wedi Brexit i greu Cronfa Rhannu Ffyniant y Deyrnas Gyfunol, wedi'i theilwrio'n arbennig i leihau'r anghydraddoldeb rhwng cymunedau ar draws ein pedair cenedl. Bydd yr arian a werir yn helpu i gyflwyno twf cynaliadwy, cynhwysol ar sail strategaeth ddiwydiannol fodern. Byddwn yn ymgynghori'n eang ar gynllun y gronfa, gan gynnwys gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, awdurdodau lleol, busnesau a chyrrff cyhoeddus. Bydd Cronfa Rhannu Ffyniant y DG yn rhad i'w gweinyddu, yn ysgafn o ran biwrocratiaeth ac wedi ei thargedu lle mae mwyaf ei hangen."

Cyfeiriwyd at Gronfa Rhannu Ffyniant y DG ym mhapur Gwyn Strategaeth Diwydiannol Llywodraeth y DG, a lanswyd ym mis Tachwedd November 2017, ac mewn papur safbwynt gan y DG ar ddyfodol polisi cydlynu, a gyhoeddwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ym mis Ebrill 2018.

Gwnaeth y Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, James Brokenshire, Ddatganiad Ysgrifenedig i'r ddau Ddŷ cyn y gwyliau ar Orffennaf 24 2018 lle cadarnhaodd fod prif amcanion CRhFf y DG yn cynnwys "mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng cymunedau trwy godi cynhyrchedd, yn enwedig yn y rhannau hynny o'r wlad y mae eu heconomiâu ymhellach y tu ôl".



Ychwanegodd mai cronfa symlach, integredig fyddai hon, ac “y bydd y Llywodraeth (y DG) wrth gwrs yn parhau'r setliadau datganoli yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ac yn dwyn i mewn y gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod y gronfa yn gweithio i lefydd ar draws y DG.” Cyfeiriodd y datganiad at gryfhau Partneriaethau Menter Lleol (PMLI) yn Lloegr, a datblygu Strategaethau Diwydiannol Lleol ar draws Lloegr erbyn 2020.

Mae a wnelo portffolio a swyddogaethau gweithredol y Gweinidog hwn oll bron yn gyfan gwbl â Lloegr, ac yn achos Cymru, maent wedi eu datganoli i Weinidogion Cymru. Codwyd pryderon na fyddai'n briodol i'r Gweinidog ysgwyddo'r cyfrifoldeb am swyddogaethau datganoledig trwy reolaeth gyffredinol CRhFf y DG. Yn benodol, cyfeiria'r Gweinidog at drafod gyda'r gweinyddiaethau datganoledig sut y gallai Strategaethau Diwydiannol Lleol weithio yn y gweinyddiaethau datganoledig – arwydd, efallai, o'r agwedd mai 'San Steffan sy'n gwybod orau'.

Addawodd Llywodraeth y DG ymgynghori â'r cyhoedd ar CRhFf y DG yn 2018, ond ni chyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori eto (ar ddiwrnod cyhoeddi'r papur). Dywed datganiad Gorffennaf 2018 y cyhoeddir gweithrediad a blaenoriaethau CRhFf y DG fel rhan o Adolygiad Gwariant 2019. Mae'r oedi cyn cynnal yr ymgynghoriad hwn wedi peri pryderon na wneir penderfyniadau na dod i gytundeb mewn digon o bryd. Gan gydnabod y daw'r trefniadau presennol i ben i raddau helaeth ddiwedd y flwyddyn nesaf (2020), mae bellach yn fater o frys pennu trefniadau'r dyfodol yn gyflym fel y gall paratoadau ar gyfer yr egwyddorion, llywodraethiant a gweithredu'r cyllido heb darfu ar ddarparwyr ar lawr gwlad.

Roedd cyhoeddiad diweddar £1.6 biliwn “Stronger Towns Fund” wedi pryderu rhai am ei fod yn bosib y byddai'r gronfa hon yn cymryd lle CRhFf y DG. Er gwaethaf hyn, yn ymateb i gwestiwn llafar gan yr Arlwydd Wigley yn Nhy'r Arglwyddi ar Fawrth 5ed, 2019, dywedodd yr Arlwydd Bourne Aberystwyth mai cronfa ar wahan yw hon.

Mae Plaid Cymru wedi galw ers amser am ail-gydbwysu economi'r DG trwy neilltuo adnoddau ar sail angen, yn hytrach na dyraniadau ar sail poblogaeth. Tynnodd Plaid Cymru sylw'n rheolaidd at y gwahaniaeth ar fuddsoddiad datblygu economaidd o'r Undeb Ewropeaidd, sydd yn fwriadol ac yn gyhoeddus yn targedu arian tuag at ranbarthau gyda pherfformiad economaidd is, performance, â'r DG, sydd heb safbwynt cyhoeddus ffurfiol ar ddatblygu economaidd rhanbarthol ac y mae eu hymrwymiad i gyllido Fformiwla Barnett, sydd yn neilltuo cyllid i Gymru ar sail

fformiwla seiliedig ar boblogaeth seiliedig ar y cynnydd neu'r gostyngiad mewn cyllid i adrannau'r llywodraeth yn San Steffan a chymhariaeth o'r cyfrifoldebau sy'n cael eu datganoli i Weinidogion Cymru.

Mae'r gydnabyddiaeth mai nod y CRhFf yw lleihau anghydraddoldeb rhwng cymunedau i'w groesawu, ond bydd gweithredu'r agwedd hon ym mholisi Llywodraeth y DG yn galw am fuddsoddiad sylweddol ar raddfa fwy o lawer na chronfeydd strwythurol Ewropeaidd, ac yn y cyd-destun hwnnw, y disgwyliad yw mai cam cyntaf i'r cyfeiriad hwnnw fydd y CRhFf, yn hytrach na disgwyl iddi arwain at ail-gydbwysu i ostwng anghydraddoldeb rhwng cymunedau ar ei phen ei hun.

#### 4. Sut y dylid dosbarthu'r CRhFf

Cynhaliwyd ymchwiliadau i ffurfiant Cronfa Rhannu Ffyniant y DG gan y Grŵp Seneddol Amlbleidiol ar Gyllido Wedi Brexit i Genhedloedd, Rhanbarthau ac Ardaloedd Lleol gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymysg eraill.

Mae'r galwadau hyn am dystiolaeth wedi arwain at gyhoeddi cyfres o bapurau ar yr hyn allai gymryd lle Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd a'u gweithredu (gan gynnwys y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol, Sefydliad Joseph Rowntree, Sefydliad Bevan, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'r Gynghrair Cymunedau Diwydiannol).

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd wedi dangos y daethpwyd i gonsensws eang yng Nghymru ar gyfres o faterion, gan gynnwys

- Yr angen i barchu'r setliad datganoli trwy roi cyfrifoldeb am weithredu'r Gronfa Rhannu Ffyniant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru
- Yr angen am fframwaith cyllido aml-flynyddol, tebyg i'r amserlen saith-mlynedd a ddarperir gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn rhoi sicrwydd cyllido tymor-hir fydd yn annibynnol ar y cylchoedd gwleidyddol ac etholiadol, ac yn lleihau ansicrwydd cyllido prosiectau tymor-byr a'r posibilrwydd o fabwysiadu agweddau tymor-byr i gwrdd â deilliannau fel rhan o gylch ceisiadau parhaus am gyllid.

- Cefnogi proses gyn-neilltuo ar gyfer cyllido yn hytrach na phroses fidio gystadleuol. Mae hyn yn rhoi sicrwydd cyllid yn hytrach na gosod rhanbarthau, sectorau neu sefydliadau yn erbyn ei gilydd mewn proses wastraffus a all ffafrio'r rhai sydd eisoes mewn sefyllfa dda i fidio yn hytrach na'r rhai sydd wir angen cefnogaeth.

Yn ei hanfod, mae'r consensws hwn yn argymhell parhad o'r cyllid a'r strwythurau llywodraethiant presennol mewn cyd-destun Cymreig, yn hytrach na chael newid sylweddol. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch perfformiad economaidd yn y cyfnod wedi Brexit, ymddengys mai peth doeth fuasai mabwysiadu agwedd o roi diogelwch yn flaenaf wrth symud o fframwaith fuddsoddi dan gyfarwyddyd yr Undeb Ewropeaidd.

Fel yr argymhellwyd gan y GSA ar Gyllid Wedi Brexit, dylai'r CRhFf gael brand sydd yn adlewyrchu rheolaeth leol y gronfa. Yn achos Cymru, dylid galw hon yn CRhFf Cymru (Cronfa Ffyniant Cymru).

## 5. Sut mae'r cronfeydd Ewropeaidd presennol yn cael eu rheoli yng Nghymru?

Swyddfa Gyllido Ewropeaidd Cymru (SGEC) yw'r Awdurdod Rheoli ar gyfer gwario Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru. Maent yn gyfrifol am bedwar prosiect hollgyffredinol – y Cronfeydd Cymdeithasol Ewropeaidd yn Nwyrain Cymru, ac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac i Gronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn Nwyrain Cymru, ac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. At ddibenion cyllido a chyfrifo, mae'r rhaglenni hyn ar wahân.

Fel yr amlinellwyd eisoes, bwriadwyd rhaglenni yn y CGE a CDdRhE i gwrdd â gwahanol anghenion yn y fframwaith Ewropeaidd. Mae SGEC yn cynnwys elfennau o brofi cyn-neilltuo a chyfarwyddyd i sicrhau bod rhaglenni yn gymwys, trwy gwrdd â'r meini prawf perthnasol – yn gyffredinol, buddsoddi mewn cyflogadwyedd unigol trwy'r CGE a gwelliannau seilwaith trwy'r CDdRhE.

Cytunodd SGEC ar ryw 190 prosiect yn 2018.

## 6. Sut y mae'r rhaglenni presennol yn cael eu monitro yng Nghymru?

Mae gweithgareddau SGEC yn cael eu goruchwyllo gan y Pwyllgor Rheoli Rhaglenni, sydd yn cyfarfod sawl gwaith y flwyddyn i fonitro cyflwyno Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn effeithiol, a hefyd y Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig. Yn 2018, cyfarfu'r Pwyllgor Rheoli Rhaglenni ddwywaith dan gadeiryddiaeth Julie Morgan AC. Cynhaliwyd y cyfarfod mwyaf diweddar, adeg ysgrifennu hyn, ym mis Ionawr 2019 dan gadeiryddiaeth Huw Irranca-Davies AC.

Mae'r Pwyllgor Rheoli Rhaglenni yn cynnwys 27 aelod o wahanol sectorau yng Nghymru. Penodwyd chwech o'r aelodau trwy broses ymgeisio gyhoeddus, ac y mae cynrychiolwyr hefyd o lywodraeth leol, busnes a menter, y trydydd sector, addysg, amgylchedd, adrannau Llywodraeth Cymru, ffermio, Llywodraeth y DG, grwpiau gweithredu lleol a chyrrff cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu. Y Cynghorydd Plaid Cymru Dyfrig Siencyn sy'n cynrychioli Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y Pwyllgor Rheoli Rhaglenni.

Bydd ymgyngorwyr ar lefel Ewropeaidd ac uwch-staff SGEC yn mynychu cyfarfodydd i adrodd am gynnydd yn erbyn DPA rhaglenni, rhannu gwybodaeth ac arfer da.

## 7. A yw'r system bresennol yn gweithio?

Beirniadwyd SGEC yn hallt gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2012 yn dilyn ymchwiliad i berfformiad Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013, a chytunwyd ar lawer o'u hargymhellion, mewn egwyddor o leiaf, gan Alun Davies AC, oedd bryd hynny yn Ddirprwy Weinidog gyda chyfrifoldeb dros arian Ewropeaidd.

Ymysg argymhellion a wnaed gan y pwyllgor bryd hynny yr oedd gwelliant mewn cydgordio a goruchwyllo prosiectau i osgoi dyblygu, gwelliannau mewn cyngor ar gaffael a gostyngiadau mewn trosiant staff.

Wrth gynnal adroddiad ar Reoli Effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol, a gyhoeddwyd yn Awst 2018, adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn ffafriol ar berfformiad cyfredol SGEC. Yr oedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y bygythiad bryd hynny y byddai angen tynnu cyllid i lawr o rownd 2014-2020 o gyllid Ewropeaidd ar gyfradd gynt pe na fyddai modd dod i gytundeb ar ymadael.

Dywed SAC yng nghrynodeb eu hadroddiad fod SGEC wedi cynnal mesurau gwirio cadarn ar waethaf y bwriad i gynyddu cyflymder cymeradwyo prosiectau a gwario cyn Brexit, fod SGEC wedi cryfhau eu hagwedd tuag at gymeradwyo prosiectau ac ymrwymo'n unig i'r rhai sydd yn cwrdd â meini prawf llym ac sy'n cyfateb i'w blaenoriaethau strategol a bod gan SGEC wiriadau cadarn i sicrhau y gall prosiectau hawlio cyllid yn unig os gallant ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cymhwyster a chyflwyno. Dywedant hefyd fod trefniadau clir ar gael i fonitro ac adrodd am gynnydd gyda'r rhaglen yn gyffredinol.

## 8. Pa risgiau sydd o ran rheoli rhaglenni?

Er nad oedd adroddiad SAC yn adolygiad llawn o drefniadaeth SGEC, fe wnaeth godi rhai problemau a wynebant. Dywed yr adroddiad fod SGEC yn gweithredu ar y rhagdyb fod ganddynt 190 o aelodau staff CALL, er eu bod yn aml wedi gweithredu ar 11%-16% yn is na chapasiti dros y blynyddoedd diweddar. Nid yw nifer aelodau staff is nac a ragwelwyd yn anarferol yn y sector hwn ar hyn o bryd oherwydd prinder staff cymwys ac effaith cyfyngiadau ar recriwtio a thâl y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, erys hyn yn risg bosib at y dyfodol i unrhyw system a weithredir i fonitro'r Gronfa Rhannu Ffyniant.

Ymysg risgiau rheoli rhaglenni eraill mae amrywiadau arian rhwng taliadau mewn Euro a'r gwerth mewn Sterling, a'r amserlen ar gyfer cwblhau hawliadau gwariant yng nghyfnod terfynu prosiect.

Yr oedd swm y cyllid ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Cymru yn cael ei wneud mewn Euro, yn hytrach na phunnoedd sterling, ac y mae ail-ddatgan y gyfradd arian cyfred yn ddiweddar o £1: 1.20 Euro i £1: 1.17 Euro yn golygu bod mwy o gyllid ar gael ar gyfer prosiectau o gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol. Cyn y refferendwm, yr oed y gyfradd

wirioneddol yn llai ffafriol ac fe allai hyn fod wedi cael effaith andwyol ar raglenni. Bydd datgan y Gronfa Rhannu Ffyniant mewn punnoedd sterling yn gwneud i ffwrdd â'r risg o amrywiadau mewn arian cyfred yn y dyfodol.

Bu'r amser oedd ar gael i hawlio gwariant ôl-ddyledus yn risg draddodiadol, er bod hyn yn llai tebygol yn y rownd hon o gyllid Ewropeaidd am i wariant gael ei ddwyn ymlaen o ganlyniad i Brexit. Yn y gorffennol, mae cyrff cyllido ar lefel Ewropeaidd wedi caniatáu i SGEC, fel yr Awdurdod Rheoli Cymreig, hawlio cyllid hyd at dair blynedd wedi dyddiad terfyn cyflwyno'r prosiectau - cyllido 'n+3' fel y'i gelwir - sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd yn y cyfnod gwaddol, a rhoi mwy o amser i raglenni gau i lawr a chyflwyno hawliadau terfynol. Mae sefyllfa diweddu rownd gyllido 2014-2020 yn anarferol, ond dylid mabwysiadu'r drefn 'n+3' pan fydd Awdurdod Rheoli nesaf elfen Gymreig Cronfa Rhannu Ffyniant y DG yn derbyn cyllid gan adran berthnasol Llywodraeth y DG.

Awgryma tystiolaeth SAC fod SGEC yn fedrus yn eu maes o reoli rhaglenni arian Ewropeaidd. Bydd strwythurau'r dyfodol yn dibynnu ar y graddau yr ystyrir Cronfeydd Rhannu Ffyniant y DG yng Nghymru fel cyllid ar wahân neu a fyddant yn cael eu hintegreiddio gyda'r Grant Bloc Cymreig.

## 9. Sut y dylid archwilio cyllido yn y dyfodol?

Elfen allweddol o gyllid Ewropeaidd, yn enwedig CDdRhE, yw'r ychwanegolrwydd mae'n ddwyn i Gymru fel cyllid prosiect ar ben gwariant Llywodraeth Cymru. Mae dal gwerth yr ychwanegolrwydd hwn yn bwysig er mwyn dangos effaith a newid. Fodd bynnag, cyfran cymharol fychan o wariant cyhoeddus Llywodraeth Cymru yw Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd dros oes y grant, ac y mae'n swm is fyth o gymharu â chyfanswm GDP Cymru. Mae'n hawdd felly ar yr un pryd i or-bwysleisio pwysigrwydd arian Ewropeaidd i economi Cymru a bod yn ymwybodol ar yr un pryd fod cyfeiriad y cyllid dros y tair rownd wedi creu lefel o ddibyniaeth mewn rhai sectorau ac ardaloedd daearyddol sydd wedi elwa o'r buddsoddiad, ac y byddai tynnu'r arian hwn yn ôl yn cael effaith negyddol sylweddol ar economi Cymru.

Os bydd cyllido yn y dyfodol dan y Gronfa Rhannu Ffyniant yn parhau i adlewyrchu buddsoddiad ychwanegol yn ardaloedd economaidd ddifreintiedig Cymru, yn hytrach na chael ei amsugno i fuddsoddiad craidd ym

mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yna bydd angen strwythurau a gwerthuso rheoli rhaglenni i sicrhau fod buddsoddiadau yn mynd i'r manau cywir ac yn cael yr effaith fwyaf ar weithgaredd economaidd— tu hwnt ac uwchlaw'r monitro arferol ar raglenni.

Yn wahanol i gyllid CDdRhE yn arbennig, oedd â dyddiad ymyl-y-dibyn lle cymharwyd data economaidd Cymru, yn enwedig Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a rhanbarthau NUTS2 eraill ledled yr Undeb Ewropeaidd, gall y Gronfa Rhannu Ffyniant barhau i gefnogi Cymru – oni fydd trawsnewidiad economaidd sylweddol yn digwydd i chwyddo'r economi mewn cymhariaeth â Llundain a de-ddwyrain Lloegr.

Awgryma profiad ac arbenigedd SGEC, o leiaf am gyfnod cyntaf y Gronfa Rhannu Ffyniant yng Nghymru, y dylid cadw strwythurau tebyg i'r rhai presennol. Awgryma'r dystiolaeth sydd ar gael fod gan SGEC yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol i reoli newid i system a ddylai fod yn gymharol syml, ar yr amod na fydd Llywodraeth y DG yn rhoi lefel debyg o fiwrocratiaeth yn lle gofynion yr Undeb Ewropeaidd. Dylai effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedyn gael eu hadolygu gan Lywodraeth Cymru a phwyllgorau perthnasol y Cynulliad Cenedlaethol cyn terfynu rownd gyntaf cyllido'r Gronfa Rhannu Ffyniant, fel rhan o werthuso'r prosiect yn gyffredinol.

Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na ddylid cael proses sy'n adolygu gweithrediadau SGEC (a'i enw) yn y newid o Gyllid Strwythurol Ewropeaidd i'r Gronfa Rhannu Ffyniant.

Dylid cynnal adolygiad o effeithiolrwydd herio ac arweinyddiaeth y Pwyllgor Rheoli Rhaglenni, maint ac aelodaeth y pwyllgor. Dylai'r adolygiad ystyried i ba raddau y gwelir rôl y Pwyllgor Rheoli Rhaglenni fel un o graffu ar a monitro'r Gronfa a faint o ddylanwad ddylai gael dros dargedau ac effeithiau, yn enwedig yng nghyfnod sefydlu'r Gronfa newydd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd datblygiadau Dinas-Ranbarthau a Bargeinion Twf, lle mae strwythurau awdurdodau lleol wedi ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros ddatblygu economaidd yn eu hardaloedd o Gymru. Dylai'r rhai, a'r awdurdodau lleol sy'n sylfaen iddynt, fod yn rhan o broses benderfynu'r Gronfa Rhannu Ffyniant, gan ddefnyddio arbenigedd lleol i roi gwell canlyniadau. Mae rôl bresennol y Pwyllgor Rheoli Rhaglenni o ran adolygu

rhaglenni cysylltiedig â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin y tu hwnt i gwmpas y papur hwn, ond fe ddylid ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyfeiriad a gweithredu'r PAC yn y dyfodol.

Yn niffyg rheoliadau Ewropeaidd sydd yn pennu cymhwyster am wario ar raglenni, a rhagdybiaeth y bydd Llywodraeth y DG yn fwy hyblyg o ran y Gronfa Rhannu Ffyniant, bydd angen eglurder am yr hyn gaiff ei gyllido neu'r hyn na chaiff ei gyllido. Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynghylch datganiad cenhadaeth hawdd ei ddeall fydd yn amlinellu pwrpas y CRhFf yng Nghymru, tebyg i'r datganiadau gan yr Undeb Ewropeaidd sy'n esbonio pwrpas y CDdRhE a CGE, yn ogystal ag ymgynghori ar y modd y byddant yn sefydlu rheoliadau, yn diffinio nod prosiectau a sut y gweithredir deddfwriaeth, megis gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd ehangu'r defnydd o'r CRhFf o gymharu â Chronfeydd Strwythurol yr UE yn caniatáu mwy o effaith, fydd yn fwy cydnaws â pholisi Llywodraeth Cymru, yn hytrach na mynnu bod ceisiadau yn asio gyda blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru a'r UE . Fodd bynnag, mae'n bwysig ddefnyddio'r cyllid ychwanegol hwn i greu gwerth ychwanegol mewn meysydd polisi yn hytrach na chymryd lle rhaglenni cyllido presennol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Dylai'r CRhFf felly gadw llinell gyllideb ar wahân o fewn y gwariant, yn hytrach na chael ei integreiddio mewn cyllid craidd, lle na fyddai mor hawdd nodi'r gwariant.

Mae'n bwysig cadw mewn cof nad effaith economaidd yn unig gaiff anghydraddoldeb rhwng cymunedau, er bod yn haws mesur a gweld hynny. Mae rhoi Cronfa Rhannu Ffyniant y DG yn lle'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn golygu rhagdybio mai ymdrin â'r un meysydd a wneir, er bod llawer ystyr i anghydraddoldeb. Mae integreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn effeithiol felly yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ffactorau nad ydynt yn rhai economaidd yn cael eu hystyried, yn y broses o wneud penderfyniadau ac wrth werthuso cynlluniau ac, yn wir, y Gronfa ei hun.

Mae beirniadaeth o broses ymgeisio, gwerthuso a deilliannau cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn gyffredin ar draws yr aelod-wladwriaethau, ac y mae'r cynigion drafft a gyhoeddwyd yn ddiweddar am fframwaith ariannol aml-flynyddol 2021-2027 yn cynnwys symleiddio rheoliadau ar gyfer y CDdRhE a chyflwyno rhaglen CGE+, a fwriadwyd i roi mwy o hyblygrwydd trwy leihau'r baich gweinyddol a chyfuno cronfeydd a rhaglenni sy'n bod eisoes.



Rhagwelir y byddai'r CRhFf yng Nghymru yn dilyn llwybr tebyg trwy ddod yn llyfnach er mwyn gallu gwneud penderfyniadau yn gynt ac i weinyddu a gwerthuso ddod yn haws. Mae angen i werthuso ystyried effaith a deilliannau'r prosiect heb fod yn feichus, a sut mae'r prosiect yn cyfrannu at ddeilliannau polisi cyffredinol y CRhFf.

Yn niffyg cyfyngiadau ynghylch rhaglenni hollgyffredinol cyllido Ewropeaidd, dylid gwneud i ffwrdd a'r gwahaniaethau artiffisial yr olwg rhwng datblygu economaidd rhanbarthol a chyfleoedd unigol a chymunedol am waith, er yr erys yr angen am fuddsoddi yn y naill a'r llall.

Fel rhan o bolisi Llywodraeth y DG a Chymru, mae'r Dinas-Ranbarthau a'r ardaloedd Bargen Twf a sefydlwyd yn ddiweddar yng Nghymru yn bennaf yn croesi'r ffiniau presennol rhwng rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a rhanbarth Dwyrain Cymru.

Er na fydd angen cadw rhanbarthau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, sydd ar lawer ystyr yn artiffisial, mae'n bwysig parhau i deimlo effaith cadarnhaol cyllido yn y rhanbarthau llai economaidd datblygedig hynny.

Felly, er na fydd angen cynnal y ffiniau hyn, bydd angen elfen o fonitro cyllid yn y dyfodol er mwyn sicrhau yr erys y cyllid hwn, yn ychwanegol at gefnogaeth bosib arall yng nghyn-ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn hytrach na dadleoli; a hefyd na fydd arian yn cael ei sianelu i ardaloedd economaidd ganolog dan gochl creu swyddi i rannau economaidd mwy ymylol Cymru.

Mae llawer o ranbarth Nuts2 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Arfor (Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin) a gefnogwyd gan gyllidebau diweddar Llywodraeth Cymru fel rhan o ddatblygu economaidd yr iaith Gymraeg.

Mae'n synhwyrol cryfhau'r swyddogaethau hyn yn Arfor, gan greu ardal ddatblygu economaidd benodol Gymraeg a all wrthweithio allfudo poblogaeth. Dylai mynd at i ddatblygu'r Gymraeg yn economaidd fod yn ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch prosiectau, a sut y gallant gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith yn yr awdurdodau

lleol hyn yn benodol. Dylid ystyried hyn fel rhan o sefydlu'r Gronfa Rhannu Ffyniant yng Nghymru a dylid defnyddio awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y gwneir defnydd o'u gwybodaeth, a'i gadw.

## 10. Pwy ddylai elwa o'r Gronfa Rhannu Ffyniant yng Nghymru?

Wrth ddatblygu'r Gronfa Rhannu Ffyniant newydd yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Rheoli Rhaglenni ystyried eco-strwythur ehangach cyllido. Un o'r beirniadaethau o rowndiau cyllido blaenorol yw bod y rhai a elwodd wedi bod yn bennaf yn y sector cyhoeddus ar ryw ffurf, gan gymryd lle cyllid arall yn hytrach na chynhyrchu mentrau newydd.

Dylid adolygu effeithiolrwydd defnyddio cyfryngwyr, megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Banc Datblygu Cymru, i gefnogi'r trydydd sector a busnesau'r sector preifat i gyrchu cyllid, er mwyn ystyried a yw'r arian yn cyrraedd y targedau a fwriedir. Mae adroddiad SAC ym mis Awst 2018 yn awgrymu fod mwy o dryloywder am ofynion cyllido a galwadau am ddiddordeb wedi codi ymwybyddiaeth dros y blynyddoedd diwethaf y tu allan i'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, yng nghyd-destun yr economi ehangach, cynyddu entrepreneuriaeth a gweithgaredd economaidd, erys cwestiynau ynghylch a ydym yn cael y deiliannau gorau ac a wnaed y mwyaf o ymwneud a gallu economi Cymru hyd yma.

Nid yw'n glir ar hyn o bryd pa arian fydd ar gael i addysg uwch yng Nghymru. Mae sefydliadau addysg uwch cyn hyn wedi elwa o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (mae rhan fwyaf o sefydliadau addysg uwch Cymru wedi eu lleoli yn ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a hefyd o gyllid ledled yr UE megis Horizon 2020. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch cymhwyster prifysgolion y DG am raglenni'r EU wedi 2020. Mae'n debyg y bydd addysg uwch eto yn chwarae rhan allweddol yn y Gronfa Rhannu Ffyniant o ran datblygu economaidd rhanbarthol ac y bydd addysg uwch a phellach yn bwysig o ran datblygu sgiliau, gan gynnwys prentisiaethau, fydd o les i economïau lleol. Dylid monitro ymwneud sefydliadau addysgol a'r elw o fuddsoddiad i gymunedau lleol er mwyn sicrhau fod Cymru'n elwa o'u lleoliad a'r ffaith eu bod yn gallu cyrchu grantiau. Mae pryderon arbennig nad yw prifysgolion Cymru wedi elwa i'r un graddau na'r disgwyl dan y broses fidio gystadleuol am Horizon 2020, gan dderbyn dim ond 2.1% o gyfanswm grant y DG, ym Medi 2018.

Mae'n bwysig i ddatblygiad y rhaglen gysylltu ochr yn ochr â blaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud yn siŵr fod synergedd rhwng y ddau. Dyma lle mae'n bwysig i SGEC a'r Pwyllgor Rheoli Rhaglenni roi cyfrif a herio'r gweithgareddau dadleoli posib a ddylai gael eu cyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru neu gyfryngwyr. Dylai ceisiadau ddangos y maent yn asio ag amcanion Llywodraeth Cymru a dangos hefyd pam mai'r Gronfa Rhannu Ffyniant yw'r cyfrwng cyllido mwyaf priodol. Ni ddylid gadael i'r angen am ymrwymo cyllid prosiectau i sicrhau gwariant fod yn bwysicach na dadleoli gwariant craidd, gan na fyddai hyn yn pasio'r prawf 'ychwanegolrwydd' y dylid ei gymhwyso.

## 11. Faint ddylai'r CRhFf fod yng Nghymru?

Adeg ysgrifennu hyn, nid yw Llywodraeth y DG eto wedi cyhoeddi cyfanswm y cyllid ar gyfer Cronfa Rhannu Ffyniant y DG.

Yn FFAAF 2014-2020, derbyniodd Cymru 2.4 bn Euro, neu 22.3% o gronfeydd strwythurol yr UE a ddyrannwyd, gyda rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig yn derbyn 18.6% o'r cyfanswm.

Yr oedd rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n derbyn y rhan fwyaf o'r arian hwn, yn gymwys am y cyllid Ewropeaidd hwn oherwydd ei GDP isel, er mwyn buddsoddi'n well a gwella ei berfformiad economaidd. Y bwriad yw cael twf dwysach yn y rhanbarth hwn er mwyn dal i fyny gyda chenhedloedd a rhanbarthau eraill y DG.

Byddai neilltuo cyllid ar draws y DG yn gyfartal yn rhoi llai o gyfle i'r dal i fyny hwn ddigwydd, ac os mai anawsterau seilwaith, gan gynnwys daearyddiaeth a diffyg cyfleoedd cydgrynhoi, sydd wedi arwain at y sefyllfa economaidd hon, yna byddai derbyn lefelau tebyg o gyllid yn arwain at ddirywiad pellach o gymharu â'r rhanbarthau fyddai'n cystadlu. Mae hyn yn bryder ychwanegol yng nghyd-destun y trefniadau treth incwm newydd i Gymru lle pennir taliadau gan Lywodraeth Cymru i'r Trysorlys ar sawl twf mewn derbyniadau yng ngweddill y DG. Mae'n bosib y byddai gostyngiad mewn cyllido cymharol i Gymru ac effaith hynny ar economi Cymru yn cosbi Llywodraeth Cymru, ar sail penderfyniad cyllido gan Lywodraeth y DG .

I fod yn gyson, ac er mwyn cwrdd â'r disgwyliadau gwleidyddol a godwyd gan yr ymgyrch Arael yn ystod y refferendwm, mae'n dilyn felly y dylai Cymru barhau i dderbyn 22.3% o gyfanswm y CRhFf ac y dylid neilltuo 18.6% o gyfanswm y CRhFf i ardaloedd yn rhanbarth Nuts2 cyfredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Creodd y defnydd o GDP fel yr unig ddangosydd i gymhwyso am y lefelau uchaf o gyllid CDdRhE 'ymyl-y-dibyn' lle'r oedd cyllid mewn perygl o ddod i ben o ganlyniad naill ai i newid mewn rheoliadau y cytunwyd arnynt ar draws aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, e.e., newid yn y maen prawf cymhwyster, neu'r GDP yn cyrraedd y targedau perthnasol ac felly'n cael ei dynnu'n ôl. Yn ei hanfod, mae hyn yn creu cyfyng gyngor lle gall llwyddo i wella GDP gael ei gosbi trwy leihau cyllid neu ei dynnu'n ôl yn gyfan gwbl.

Gall hyn fod yn wir os yw ymchwil gwrthffeithiol gan Gynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol yn gywir. Mae eu gwaith hwy yn awgrymu y byddai'r DG gyfan yn derbyn 13bn Euro gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd petai'n parhau yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, ac oherwydd newidiadau yn y trothwy, byddai Dwyrain Cymru yn gostwng o fod yn ardal 'fwy datblygedig' i fod yn ardal 'drosiannol'. Fodd bynnag, mae eu hymchwil hefyd yn awgrymu fod y darlun economaidd cyffredinol ledled y DG yn fwy anffafriol o gymharu â chyfartaledd GDP yr UE nac yr oedd cyn neilltuo cyllid 2014-2020. Dan yr amgylchiadau newydd hyn, cred CrhMY y gall hyd at bump o ranbarthau'r DG fod yn gymwys am y lefel uchaf o gefnogaeth ac os felly, yn y senario wrthffeithiol hon, na fyddai Cymru yn derbyn cymaint o arian ag ar hyn o bryd.

Mae modd lliniaru pryderon am hirhoedledd a neilltuo cyllid trwy'r Gronfa Rhannu Ffyniant trwy wneud i ffwrdd ag 'ymyl-y-dibyn' trwy raddoli cyllid neu trwy gadarnhau y bydd yr hyn a neilltuir i Gymru yn aros yn gyson yn y dyfodol, gyda chodiadau yn ôl chwyddiant a phoblogaeth.

Yn y cyd-destun gwleidyddol ac economaidd y datblygwyd Cronfa Rhannu Ffyniant y DG ynddo, dylai Cymru barhau i dderbyn o leiaf yr un faint o gyllid ag o'r blaen, gyda chodiadau am chwyddiant ac yn ôl y pen.

## 12. Casgliad

Yn ystod refferendwm 2016 ar adael yr Undeb Ewropeaidd, addawodd aelodau'r ymgyrch Adael na fyddai Cymru yn derbyn yr un geiniog yn llai petai'r DG yn gadael yr UE.

Mewn termau gwleidyddol, delir y CRhFf i gyfrif am yr addewidion a wnaed am y telerau y byddai Cymru a'r DG yn gadael yr Undeb Ewropeaidd danynt. Yn lle'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, rhaid i CRhFf y DG gadw at yr addewid na fydd Cymru ar ei cholled yn ariannol o ganlyniad i adael yr UE.

O nodi amrywiadau mewn arian cyfred, dylai swm yr arian a ddarperir i Gymru aros yn gyson mewn termau real o leiaf, ar sail y pen. Gan mai dim ond hanner ffordd drwy'r cyfnod yr ydym, does dim modd rhoi ffigwr terfynol eto, ond ar sail chwyddiant a chynnydd yn y boblogaeth (4% am y ddegawd rhwng 2007 a 2017), yr ydym yn amcangyfrif bod hyn tua £2.5bn am y cyfnod saith mlynedd 2021 i 2027, o gymharu â £2.07bn yng nghyfradd gyfnewid yr Euro a ail-ddatganwyd am 2014 i 2020.

Mae Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn rhan bwysig o wariant cyhoeddus yng Nghymru a byddai colli neu ostwng y gwariant hwnnw yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar waith a chyfleoedd am wella economaidd yng Nghymru. Fodd bynnag, erys cyfanswm y gwariant ar Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn fychan yng nghydestun gwariant Llywodraeth Cymru neu'r DG ac yng nghydestun GDP'r economi ehangach. Os bydd Brexit yn arwain at effaith negyddol ar yr economi yn ehangach, yna gall hyn wrthbwysu unrhyw fanteision a ddeillia o'r Gronfa Rhannu Ffyniant.

Dr Ian Johnson